

D.G. LLOYD HUGHES yn datrys dirgelwch ADDYSG CHAMBERS I'R BOBL

DIGWYDDIAD go hynod yn hanes argraffu yng Nghymru yn y ganrif ddiwethaf oedd ymddangosiad *Addysg Chambers i'r Bobl*, cyfieithiad o'r gwaith poblogaidd *Chambers's Information for the People*. Daeth y gwaith allan i ddechrau ym Mhwlheli, mewn cyfres o rifynnau, tri ar ddeg i gyd ar gyfer y gyfrol gyntaf, a'r rhifyn cyntaf allan yn ystod mis Ionawr 1849. Rhwymwyd y gyfrol yn 1851. Bu bwch o bum mlynedd cyn gweld rhifynnau cyntaf yr ail gyfrol allan ond erbyn hynny roedd y gwaith argraffu wedi cael ei drosglwyddo i Gaernarfon.

Cam ymlaen oedd cyhoeddi'r *Addysg* yn yr ymdrech i ddarparu gwybodaeth gyffredinol yn yr iaith Gymraeg, a'r cam nesaf o bwys oedd penderfyniad Thomas Gee i ddechrau cyhoeddi'r *Gwyddoniadur* mewn rhifynnau yn Ninbych yn 1854.

Nid problem unigryw Gymreig oedd diffyg gwybodaeth gyffredinol i'r werin. Yn y flwyddyn 1825, llai na chwarter canrif cyn cyhoeddi *Addysg Chambers i'r Bobl*, gwelwyd sefydlu'r *Society for the Promotion of Useful Knowledge* yn Llundain, cymdeithas a fu'n gyfrifol am gyhoeddi llawer o ddefnyddiau addysgiadol, yn cynnwys cyfnodolion ar gyfer pobl mewn oed.

Yn 1834, o dan nawdd y gymdeithas, sefydlwyd cylchgrawn misol Cymraeg, yn seiliedig ar un o'r cylchgronau Saesneg, y *Penny Magazine*. Argraffwyd y deuddeg rhifyn cyntaf o'r cylchgrawn hwnnw gan Wasg Rees, Llanymddfri, a chwe rhifyn arall yng Nghaerfyrddin, cyn rhoi'r gorau i'r cynllun.

Cafodd Gwasg Rees, gyda'r deuddeg rhifyn a argraffwyd yno, golledion o £200, swm sylweddol iawn yn nhri degau'r ganrif ddiwethaf. Prif achos y golled, yn ôl tystiolaeth William Rees yn 1846 (yn y *Llyfrau Gleision*), oedd diffyg sylw yn y cylchgrawn i bynciau ysgrythurol gan mai yno, meddai ef, y gorweddai prif ddiddordeb y Cymry.

Nid y cylchgrawn hwnnw oedd yr unig gyhoeddiad yn cynnig gwybodaeth. Yn 1833, blwyddyn yn gynharach, yn ninas Caer, sefydlwyd *Y Gwladgarwr*, cylchgrawn yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol, newyddion, esboniadau ysgrythurol, erthyglau ar seryddiaeth, amaethu, daearyddiaeth ac elfennau cerddoriaeth, ynghyd â bywgraffiadau a llawer o gerddi gan feirdd cyfoes. Roedd ynddo hefyd dudalen yn cyhoeddi genedigaethau,

priodasau a marwolaethau, ac o'r rheini gellir casglu bod *Y Gwladgarwr* yn cyrraedd pob cwr o Gymru ond, ar ôl cant o rifynnau, darfu yn 1841.

Ceisiwyd llanw'r bwch yn 1843 trwy sefydlu *Gwladgarwr* arall ar linellau tebyg yn Llanidloes, ond terfynwyd hwnnw ar ôl deuddeg rhifyn.

O 1843 ymlaen yr unig gyfnodolion Cymraeg oedd y rhai enwadol. Roedd rhai yn gresynu am dranc *Y Gwladgarwr*, a bu'r Parchg. Hugh Hughes (I'egai), wrth gychwyn *Yr Eifion*, newyddiadur wythnosol ym Mhwlheli yn 1856, gydag uchelgais o weld hwnnw'n datblygu yn gylchgrawn ar yr un llinellau.

Yn y flwyddyn 1847 daeth y *Llyfrau Gleision*, adroddiadau'r tri dirprwywr a benodwyd gan y llywodraeth i ymchwilio i gyflwr addysg yng Nghymru, i gynhyrfu'r dyfroedd. Fel y mae pawb yn gwybod, bu ymateb chwym i'r adroddiadau, ac yr oedd ymddangosiad *Addysg Chambers* ryw bymtheng mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiadau, o ran ei amseriad, yn sicr o fod yn rhan ohono.

Ar ddyddu Saesneg yr oedd pwyslais y *Llyfrau Gleision*, wrth gwrs. Yr oedd defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng addysg ymhell o feddyliau'r dirprwywr wrth lunio'r adroddiadau, ac nid ar dir caregog y disgynnodd eu syniadau. Roedd carfan gref o Gymry Cymraeg dylanwadol yn eu croesawu. Perthynai i'r un garfan Gymry a oedd am weld y Gymraeg yn cael ei lle mewn addysg ond dim ond i'r graddau y byddai hynny'n hwyluso dysgu Saesneg. Lleiafrif bychan, a phrin eu dylanwad, oedd o blaid gwneud yr iaith Gymraeg yn brif gyfrwng addysgol.

Hyd yma, ar yr achlysuron prin hynny pan sonnir o gwbl am *Addysg Chambers i'r Bobl*, y duedd yw tynnu sylw at gysylltiad Eben Fardd — a dim ond Eben Fardd — â'r gwaith. Ond, fel y rhybuddia E. G. Millward yn ei draethawd prifysgol ar ei fywyd, doedd Eben Fardd ddim hyd yn oed yn brif gyfieithydd cyfrol gyntaf *Addysg Chambers*, ac ni chyfrannodd ddim i'r ail gyfrol.

Roedd gan Eben Fardd gysylltiad arall â chyhoeddi *Addysg Chambers* gan mai ef a ysgrifennodd at rai o weinidigion pwysicaf Cymru yn y gobaith y buasant yn cymeradwyo'r cynllun. Roedd derbyn y cyfrifoldeb hwnnw yn awgrymu cysylltiad clôs iawn efo'r trefniadau ond, fel y gwelir yn nes ymlaen, y mae hefyd yn bosib mai cynnig anfon y

llythyrau a wnaeth Eben Fardd am un rheswm neilltuo.

Fel un a chanddo daid a fu'n ddisgybl yn ysgol Eben Fardd, ac sy'n cofio llais ei dad yn diasbedain drwy'r gegin wrth iddo adrodd 'Môr gwaed ar y marmor gwyn' allan o 'Dinist Jeriwsalem', cefais fy nghyflyru i feddwl yn uchel o'r bardd o Glynnog, ond fe'm sobrwyd pan sylweddolais beth a ddatguddir mewn llyfryn bach o loffion o'i eiddo yng Nghasgliad Cwrtmawr o lawysgrifau yn y Llyfrgell Genedlaethol am ei agwedd at yr iaith Gymraeg. Er enghraifft:

The adherence of the Welsh people to their ancient language is ridiculous, even superstitious and they cling to it with a kind of obstinate devotedness totally incompatible with reason and sound judgement.

Ac mewn man arall yn yr un gyfrol soniodd am: '*... the folly of doting upon their obsolete dialect*'. Mae'n anodd iawn gen i gredu, oherwydd ei agwedd at yr iaith, y byddai Eben Fardd wedi mentro ceiniog o'i arian ei hun i gyhoeddi *Addysg Chambers*. Un o'r cyfieithwyr a gymerodd un ddyletswydd fach arall ar ei ysgwyddau oedd Eben Fardd a dim mwy na hynny.

Wrth sylweddoli mai tenau iawn oedd cysylltiad Eben Fardd â'r fenter yr oedd gennyf nifer o gwestiynau i'w hateb:

1. Pwy, yn ôl ei hanes, a oedd debycaf o hyrwyddo'r cyhoeddiad?
2. Sut y daeth y gŵr hwnnw, neu'r gwŷr hynny, a'r cyhoeddwr Robert Edwards, i gyswllt â'i gilydd, gan nad oes sôn amdano'n argraffu dim cyn cyrraedd Pwllheli?
3. Pam dewis Pwllheli, o bob man, tref anghysbell iawn ym mhedwar degau'r ganrif ddiwethaf, yn gorfod dibynnu i raddau helaeth iawn ar y môr ar gyfer cyfathrebu, fel y lle i osod y cynllun pwysig, hyd yn oed chwyldroadol, hwn ar ei draed?

Trown, i ddechrau, at beth oedd gan Robert Edwards i'w ddweud yn ei 'Ragdraith' i'r gyfrol gyntaf a ymddangosodd yn 1851. Ychydig iawn mewn gwirionedd sy'n ddadlennol, ond dywedir mai 'trwy gefnogaeth ac anogaeth amryw o'r dynion mwyaf dysgedig a dylanwadol ym mysg y genedl yr ymgymerodd â'r fath orchwyl pwysig'. Roedd nifer o ddyinion, felly, wedi bod yn ei annog ond ni chawsant eu henwi.

Oherwydd y nawdd a roddwyd ganddo i gylchgrawn Cymraeg yn ystod yr 1830au roedd angen ystyried y posibilrwydd mai'r

'Gymdeithas er Taenu Gwybodaeth Fuddiol', a sefydlwyd yn 1825, oedd wrth gefn y fenter. Mae ei harchif yn llyfrgell Coleg Prifysgol Llundain, ond y mae'n ymddangos nad oes yno unrhyw awgrym o gefnogaeth i'r *Addysg*. Nid o'r cyfeiriad hwnnw, felly, y daeth y gefnogaeth.

Sefydlwyd 'Cymdeithas er Taenu Gwybodaeth' yng Nghymru hefyd ond yn 1849, ar ôl dechrau cyhoeddi'r *Addysg* y cymerwyd y camau cyntaf tuag at wncud hynny. Nid honno, felly, oedd wrth gefn y fenter.

Bûm yn meddwl hefyd am wahanol Gymdeithasau'r Cymreigyddion ond methais weld unrhyw gyfeiriad at gyhoeddi *Addysg Chambers* mewn nifer o draethodau prifysgol a oedd yn olrhain eu hanes.

Roedd pethau'n edrych braidd yn ddu ond gwelais fod gan y Llyfrgell Genedlaethol chwech o'r saith rhifyn cyntaf o'r gyfrol gyntaf o *Addysg Chambers* yn eu cloriau gwreiddiol. Mae'r rheini'n allweddol oblegid datguddiant mai noddwr yr *Addysg* oedd Connop Thirlwall, Esgob Tyddewi. Dangosodd hwnnw, wrth gwrs, ei ddiddordeb mewn addysg yng Nghymru trwy gyflwyno deiseb o dref Aberteifi yn Nhŷ'r Arglwyddi yn 1846, yn galw am addysg i blant y tlodion yng Nghymru, ond Saesneg a fwriadai Thirlwall ei ddysgu iddyn nhw a go brin, mae'n debyg y buasai ef wedi meddwl am ddysgu'n llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd hynny'n ddigon o reswm i feddwl nad cynllun Thirlwall ei hun oedd cyfieithu *Chambers*. Mae'n haws credu mai ildio i gais am gael defnyddio ei enw fel noddwr a wnaeth yr esgob. Y sawl a wnaeth y cais hwnnw oedd gwir ysbrydolwr y cyfieithiad, a chan mai at esgob y trodd hwnnw am nawdd, daeth yn glir mai am eglwyswr y dylaswn fod yn chwilio.

Gwyddai rhywun sut roedd y gwynt yn chwythu yng Nghymru ac y byddai angen argyhoeddi'r rhai darllengar, gyda'u diddordeb dwfn mewn diwinyddiaeth a phynciau ysgrythurol, na fuasant yn pechu trwy ddarllen y fath beth â chyhoeddiad hollol seciwlar fel *Addysg Chambers*. I'r diben hwnnw roedd angen bendith rhywun blaenllaw yn y byd eglwysig, ac i offeiriad eglwysig yn ne Cymru — yn enwedig un o esgobaeth Tyddewi — ni fyddai neb yn bwysicach na'r esgob, Connop Thirlwall, ei hun. Pan drosglwyddwyd